Adroddiad ar

Ysgol Bro Cinmeirch

Llanrhaeadr yng Nghinmeirch
Dinbych
LL16 4NL

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Cinmeirch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Cinmeirch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 98 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 70 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 3.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 58.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2024 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Cinmeirch yn gymuned hapus a chyfeillgar. Mae’r pennaeth yn cydweithio’n effeithiol â gweddill y staff i greu amgylchedd dysgu cynhwysol. Mae hyn yn arwain y disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn hybu ymddygiad da.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae ei hamgylchedd meithringar yn cefnogi datblygiad personol disgyblion yn fawr, gan eu helpu i ffynnu. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â nhw. Mae’r disgyblion yn dangos parch amlwg tuag at oedolion.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o’r mannau dysgu mewnol a hefyd o dir ac ardaloedd allanol. Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i gyfrannu eu syniadau at weithgareddau ac mae’r athrawon yn cynllunio cwricwlwm diddorol sy’n datblygu medrau a gwybodaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Er hyn, nid yw’r gweithgareddau dysgu, bob amser, yn cynnig lefel o her addas i ddiwallu anghenion bob disgybl.

Mae arweinwyr wedi llwyddo i ddatblygu ethos Cymraeg cryf yn yr ysgol. Mae staff yn defnyddio ystod effeithiol o ddulliau i hybu balchder y disgyblion at eu hiaith a’u treftadaeth. Maent yn hybu defnydd o’r iaith yn gelfydd, ac o ganlyniad, mae medrau llythrennedd Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n lwyddiannus.

Mae’r llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol ac yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol gan y pennaeth am ei pherfformiad. Mae amrywiaeth o ddulliau a ffynonellau yn cael eu defnyddio i fonitro ansawdd y cwricwlwm a’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw canfyddiadau’r gweithgareddau monitro bob amser yn rhoi digon o bwyslais ar werthuso effaith y ddarpariaeth ar fedrau a chyrhaeddiad disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a medrau’r disgyblion

A2. Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn unol â’u gallu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy’n cael ei rhannu’n effeithiol â holl randdeiliaid yr ysgol. Mae hyn yn seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar sy’n arwain disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a pharchus sy’n barod i lwyddo. O

ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy’n treiddio’n naturiol ar draws cymuned gyfeillgar yr ysgol.

Mae staff a llywodraethwyr yn cydweithio a chyfathrebu’n effeithiol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a’r staff. Mae arweinwyr wedi datblygu tîm effeithiol o staff sy’n ymroi’n llwyr i werthoedd yr ysgol ac i hybu lles yn lwyddiannus. Maent yn gwbl glir am eu rolau a’u cyfrifoldebau.

Ar draws yr ysgol, mae ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy’n ysgogi disgyblion yn llwyddiannus. Ar y cyd, mae’r athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol a pherthnasol sy’n datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae pwyslais cryf yn cael ei roi ar ddatblygu ymwybyddiaeth o natur unigryw’r ardal leol a thraddodiadau Cymru.

Trwy amrywiaeth eang o ffyrdd, mae’r staff yn achub ar gyfleoedd bwriadus a pharhaus i hybu balchder y disgyblion at y Gymraeg a’u Cymreictod. Mae’r staff yn fodelau iaith effeithiol, a thrwy ystod o ddulliau, maent yn annog bob disgybl i ddefnyddio’r Gymraeg yn naturiol ymhob sefyllfa. O ganlyniad, mae hyder a medrau llythrennedd Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n llwyddiannus. O oed cynnar, mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn gadarn. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynyddu eu diddordeb a mwynhad wrth ddarllen ystod eang o destunau ffeithiol a ffuglen. Maent yn dangos brwdfrydedd wrth drafod cynnwys eu testunau a’u hoff awduron yn y ddwy iaith. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif yn gadarn. Wrth symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol a chreadigol mewn gwahanol gyd-destunau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn gynyddol feistrolgar.

Mae’r staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu a dysgu pwrpasol, gan gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion weithio’n unigol, fesul pâr ac mewn grwpiau. Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i drafod a rhannu eu syniadau â’u partneriaid trafod, sy’n fodd o ddatblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Mae’r staff yn gwneud defnydd effeithiol o’r ardaloedd dysgu mewnol ac allanol i gyfoethogi’r cwricwlwm ac ennyn diddordeb ac ymrwymiad y disgyblion. Mae’r adborth llafar a gynigir i’r disgyblion yn cynnig arweiniad effeithiol iddynt wella eu gwaith ac i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu. Yn yr arfer orau, mae’r staff yn holi’r disgyblion yn fwriadus. Maent yn cynnig cyfleoedd bwriadus iddynt gyfrannu eu syniadau at yr hyn maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Er hyn, nid yw’r gweithgareddau dysgu bob amser yn cynnig lefel o her addas i ddiwallu anghenion bob disgybl.

Mae gan y staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o’r disgyblion yn eu gofal. Maent yn adnabod disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn gynnar ac yn manteisio’n llawn ar gefnogaeth asiantaethau allanol i gefnogi’r disgyblion hyn. Mae’r staff yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau olrhain cynnydd yn effeithiol er mwyn darparu ymyraethau pwrpasol sy’n cefnogi anghenion unigol disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl sydd ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros gyfnod. Mae’r ysgol gyfan yn meithrin ethos gofalgar, teuluol arbennig. Mae’r staff yn barod i wrando a gweithredu ar unrhyw bryder sydd gan ddisgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo’n ddiogel mewn awyrgylch cynhwysol a chroesawgar. Mae’r ymdeimlad o fod yn rhan o un teulu clòs yn nodwedd gref sy’n cael ei gwerthfawrogi’n fawr gan y rhieni. Maent yn ddiolchgar bod staff yn cymryd bob cam i sicrhau bod eu plant yn ymgartrefu’n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol.

### Ciplun: Hybu lles y gymuned ysgol

Mae lles disgyblion a’r staff yn ganolog i weledigaeth yr ysgol. Mae’r disgyblion sy’n rhan o’r Cyngor Lleisiau Lles yn goruchwylio’r dulliau gwella lles, ac wedi sefydlu sawl mesur cymorth gan gynnwys blwch pryderon, cornel clyd, mainc codi calon, a system ‘ffrindiau ffeind’ i feithrin cysylltiadau ymhlith y disgyblion. Yn ogystal, mae’r ysgol yn blaenoriaethu llesiant staff trwy ‘nodyn neis’, a rhennir y nodiadau yn wythnosol gan aelodau’r Lleisiau Lles. Mae’r ysgol hefyd yn cynnal digwyddiadau lles cymunedol, megis diwrnod ‘Gwener Gwenu’, sy’n darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio â busnesau lleol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo’n hapus yn yr ysgol.

Mae’r staff yn cynnwys y disgyblion yn bwrpasol wrth lunio polisi a sefydlu gweithdrefnau pwrpasol er mwyn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol bron pob disgybl. Mae’r disgyblion sydd ar yr amrywiol bwyllgorau ysgol yn cyfrannu eu syniadau ac yn dylanwadu’n sylweddol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r staff yn cynnig darpariaeth sy’n fodd effeithiol i hyrwyddo dealltwriaeth ac empathi’r disgyblion o ran materion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu’n ddinasyddion cyfrifol sy’n ymwybodol o bwysigrwydd parchu byd amrywiol a chyfle cyfartal.

Mae perthynas yr ysgol â’r rhieni yn gryfder ac mae’r cydweithio a’r cyfathrebu parhaus yn hybu’r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol. Mae rhieni’n  derbyn gwybodaeth werthfawr am waith yr ysgol yn rheolaidd, gan gynnwys adroddiadau ysgrifenedig sy’n darparu gwybodaeth glir i rieni am gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus gyda chymorth profiadol y corff llywodraethol. Mae cynllun clir ar waith i sicrhau bod gwariant yn cefnogi amcanion strategol yr ysgol. Caiff y grant datblygu disgyblion ei ddefnyddio’n bwrpasol i ddarparu rhaglenni cymorth i ddisgyblion ac i sicrhau bod pob disgybl yn mynychu teithiau ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn manteisio ar brofiadau addysgol buddiol sy’n dylanwadu’n gadarnhaol ar eu safonau a lles.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i’r ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol, reolaidd gan y pennaeth a chyflwyniadau gwerthfawr gan arweinwyr am waith yr ysgol. Mae gan arweinwyr ystod briodol o drefniadau i fonitro a gwerthuso’r dysgu a’r ddarpariaeth sy’n cynnwys y staff, disgyblion a’r llywodraethwyr yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw canfyddiadau’r gweithgareddau monitro bob amser yn rhoi digon o bwyslais ar werthuso effaith y ddarpariaeth ar fedrau a chyrhaeddiad y disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025